



Cefndir

Mae'r [Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur](#) (NFFN) yn gorff sy'n cael ei arwain gan ffermwyr a sefydlwyd yn mis Ionawr 2018. Rydym yn uno ffermwyr ledled y DU sydd wedi ymrwymo i reoli eu tir a gyfer bywyd gwyllt a'r amgylchedd, yn ogystal â thyfu a darparu bwyd iach a maethlon. Mae gennym 11 ffermwr ar ein grŵp llywio NFFN Cymru, a bron i 300 o aelodau sy'n ffermwyr yng Nghymru sy'n cefnogi ein maniffesto sy'n pwysleisio'n glir y gefnogaeth sydd i reoli tir er lles natur gan ffermwyr sy'n chwilio am lais i ddylanwadu ar bolisiau'r dyfodol.

Cyd-destun

Mae'r dirwedd yng Nghymru wedi'i siapio gan ffermio, gyda ffermwyr yn rheoli dros 80% o dir y wlad. Ac eto, nid yw pob newid yn y cyfnod diweddar i'w groesawu; mae priddoedd wedi eu disbyddu, safonau cyrsiau dŵr wedi dirywio ac mae natur wedi ei chael hi'n anodd ymdopi â chyflymder y newid. Mae [Adroddiad Sefyllfa Byd Natur 2019](#) yn nodi bod 1 o bob 6 rhywogaeth bywyd gwyllt yng Nghymru dan fygythiad o ddfodiant, tra bod [Adroddiad Cyfoeth Naturiol Cymru ar Gyflwr Adnoddau Naturiol Cymru](#) yn dangos nad oes yr un o'n hecosystemau yn wydn. Hefyd, mae amaethyddiaeth yn gyfrifol am 16% o gyfanswm allyriadau nwyon tŷ gwydr Cymru.

Fodd bynnag, mae llawer o ffermydd yn mynd yn groes i'r duedd hon, ac mae nifer o ffermwyr wedi cyflawni gwaith anhygoel wrth helpu bywyd gwyllt i ffynnu ar eu tir - credwn y dylid eu cefnogi a'u gwobrwyo'n well am eu gwaith da. Os bydd mwy yn dilyn eu hesiampl, gallwn wrthdroi'r dirywiadau hyn. Gall ffermio er lles natur helpu i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur, cefnogi cymunedau ac economïau gwledig sy'n ffynnu, cynhyrchu digon o fwyd cynaliadwy iach a gwella iechyd y cyhoedd. Yn syml, mae ffermio er lles natur yn cynnig buddion dirifedi i'r meysydd hynny sydd dan gylch gorchwyl y Pwyllgor. Er mwyn helpu i gyflawni hyn, rydym yn annog Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith i flaenoriaethu'r meysydd allweddol canlynol.

Papur Gwyn Amaeth (Cymru)

Gyda bwriad Llywodraeth Cymru i gyflwyno **Bil Amaethyddiaeth** newydd ym mlwyddyn gyntaf y Senedd hon, bydd craffu ar y darn pwysig hwn o ddeddfwriaeth yn hanfodol i sicrhau bod diwydiant amaeth Cymru mewn sefyllfa dda ac yn cael ei gefnogi i gynhyrchu digon o fwyd iach, wrth fynd i'r afael hefyd â'r argyfyngau natur a hinsawdd.

Dylai craffu ar y **Cynllun Ffermio Cynaliadwy** arfaethedig, sy'n debygol o fod y prif gyfrwng i gynnig cymorth amaethyddol yn dilyn diddymiad graddol Cynllun y Taliad Sylfaenol a chynlluniau amaeth-amgylcheddol cysylltiedig, hefyd gael lle amlwg yn rhaglen waith y Pwyllgor. Rhaid i system cymorth amaethyddol yn y dyfodol hwyluso a gwobrwyo ffermwyr yn briodol am sicrhau buddion amgylcheddol fel gwell bioamrywiaeth, dŵr ac aer glân, dal a storio carbon a chynlluniau rheoli llifogydd yn naturiol. Ar hyn o bryd mae diffyg eglurder am fanylion y Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig, a'r cyfnod o drosglwyddo i hwnnw wrth i'r Cynllun Taliad Sylfaenol ddod i ben.

Strategaeth Bwyd Cymunedol

Mae Rhaglen Lywodraethu Cymru yn amlinellu cynlluniau i ddatblygu **Strategaeth Bwyd Cymunedol Cymru**. Mae angen system fwyd drawsnewidiol arnom sy'n sicrhau bod ffermwyr yn cael elw teg wrth sicrhau fod bwyd yn iach, yn fforddiadwy ac yn cael ei gynhyrchu mewn ffordd gynaliadwy. Mae llawer o ffermwyr NFFN yn newid y ffordd maen nhw'n cyflenwi'r bwyd maen nhw'n ei gynhyrchu, ac maen nhw'n marchnata'n uniongyrchol i'r cyhoedd trwy gadwyni cyflenwi lleol neu ar-lein (gweler ein hadroddiad [Feeding the Nation](#)).

Gall newid tuag at system fwyd fwy lleol arwain at nifer o bethau da, gydag adroddiad diweddar y DU [The Case of Local Food](#) yn pwysleisio y gallai newid o 10% yn y farchnad manwerthu bwyd tuag at systemau bwyd lleol a



mwy cynaliadwy greu hyd at 200,000 o swyddi ychwanegol, gefnogi adferiad economaidd gwyrdd ac adfer natur. Dylid rhoi sylw i feysydd fel caffael cyhoeddus a llwybrau i'r farchnad, cynhyrchu eilaidd a chadw gwerth, yn ogystal â hyrwyddo garddwriaeth a mentrau ffermio cymysg. O'r herwydd, rydym o'r farn bod craffu ar y strategaeth drawsnewidiol hon yn flaenoriaeth allweddol i'r Pwyllgor.

Targedau Plannu Coed a Gwrthbwysu Carbon

Mae cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer [creu coetir yng Nghymru](#) yn nodi bod angen plannu 43,000ha o goetir newydd erbyn 2030 a 180,000ha erbyn 2050. Does dim amheuaeth bod gan goed rôl allweddol wrth fynd i'r afael â'r argyfyngau natur a hinsawdd - mae coetir yn ein galluogi i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd yn well a gall hefyd greu tirwedd llawn natur sy'n fuddiol i dir fferm a bywyd gwyllt.

Fodd bynnag, mae'r nodau hyn yn dra uchelgeisiol a gallai eu cyflwyno ar raddfa mor fawr arwain [at ganlyniadau anfwriadol os na weithredir yn ofalus](#), yn enwedig ar ein bioamrywiaeth a'n hamgylchedd ehangach. Gall plannu'r goeden anghywir yn y man anghywir hefyd fygwth bioamrywiaeth tir fferm ac, yn wir, gall arwain at ganlyniadau negyddol i'n hinsawdd. Weithiau, mae'r gwrthwyneb i blannu coed yn fwy priodol ar gyfer cyfrannu at y darlun ehangach o liniaru newid hinsawdd ac adfer natur, lle dylem fod yn torri coed i lawr ar fawndiroedd neu leiniau cysgodi ger ardaloedd sy'n cael eu defnyddio gan adar sy'n nythu ar y ddaear.

Dylid rhoi ystyriaeth gyfartal i gynefinoedd amaethyddol eraill sy'n llawn carbon fel gwrychoedd, rhostiroedd, mawndiroedd, glaswelltiroedd llawn rhywogaethau, dolydd gwair a gwyndonnydd amlrywogaeth. Fel y mae ar hyn o bryd, mae mawndiroedd diraddiedig y DU yn allyrru mwy o garbon nag y gallai hyd yn oed targedau plannu coed mwyaf uchelgeisiol Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU eu dal a'u storio. Rydym yn galw ar y pwyllgor i graffu **ar dargedau plannu coed** Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau nad ydyn nhw'n cael effaith andwyol ar gynefinoedd a rhywogaethau tir fferm gwerthfawr.

Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Amaethyddiaeth

Mae'r Papur Gwyn Amaethyddiaeth (Cymru) diweddar yn amlinellu cynlluniau i greu **Safonau Gofynnol Cenedlaethol** (SGN) a chyfundrefn orfodi newydd ar gyfer amaethyddiaeth. Ni fu cynnal ein safonau uchel i ddiogelu'r amgylchedd, lles anifeiliaid a diogelwch bwyd erioed mor bwysig. Byddai craffu ar y SGN arfaethedig yn cael ei groesawu i sicrhau bod ffermwyr yn gallu cynhyrchu bwyd sy'n ddiogel ac iach wrth hefyd helpu i adfer ein pridd, tirweddau, afonydd a bywyd gwyllt a'u helpu i ffynnu.

Casgliadau

Mae gan ffermio er lles natur rôl hanfodol wrth fynd i'r afael â'r argyfyngau natur a hinsawdd. Mae defnyddio ffyrdd o weithio ar sail natur ar ffermydd er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd yn rhywbeth y gall pob fferm yng Nghymru ei wneud. Ond, mae angen cefnogaeth polisiâu ar frys i gynyddu'r nifer o ffermydd sy'n ffermio er lles natur ar draws y wlad. Rydym wir yn gobeithio fod y Pwyllgor yn deall pwysigrwydd ffermio er lles natur a pha mor berthnasol ydyw i feysydd gwaith y Pwyllgor. Rhaid peidio ag anwybyddu cyfraniad ffermio er lles natur i helpu i gyflawni uchelgeisiau Cymru i fynd i'r afael â newid hinsawdd - mae'n faes sy'n haeddu sylw arbennig.

O ystyried cylch gwaith eang y Pwyllgor, credwn fod y materion uchod yn briodol i'w hystyried mewn cydweithrediad â *Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig*. Os nad yw hynny'n digwydd, mae perygl y bydd Llywodraeth Cymru yn llunio polisiâu digyswllt ac mewn seilo.

Diolch i chi am ystyried ein cyflwyniad. Rydym yn edrych ymlaen at weithio'n agos gyda'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith dros dymor y chweched Senedd.

Am fanylion pellach, cysylltwch â rhys.evans@nffn.org.uk